# POLISI CWRICWLWM

***Mae gan holl ddisgyblion Ysgol y Strade hawl i gael cwricwlwm eang a chytbwys sy'n :***
***"hyrwyddo eu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol ac yn eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolion. (Adran 351, Deddf Addysg 1996)***

Mae'r Polisi Cwricwlwm hwn yn adlewyrchu Erthygl 28 yn bennaf yn y Confensiwn Cenedlaethol Unedig ar Hawliau'r Plentyn - hawl y plentyn i addysg ac i fynychu'r ysgol a hefyd erthyglau eraill e.e. rhifau 3,6,12,13,29,30,33,37,39.

Mae'r ysgol yn ymrwymedig i sicrhau bod ein disgyblion yn cael mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cydfynd a'u hanghenion, eu diddordebau a'u dyheadau. Diben y cwrciwlwm yw i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth anghenrheidiol er mwyn codi cyrhaeddiad addysgol a sicrhau bod pob disgybl yn gallu cyflawni ei botensial yn llawn.

**<u>Mae cwricwlwm Ysgol y Strade yn:</u>**

- Sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd ei botensial drwy gynnig amrediad eang o gyrsiau a llwybrau o fewn y cwricwlwm statudol sy'n ymateb i anghenion, diwylliant a dyheadau'r disgyblion, yr ardal a'r economi leol.
- Sicrhau bod pob disgybl yn datblygu i fod yn hyfedr ddwyieithog, er mwyn gallu chwarae rhan lawn yn y gymdeithas ddwyieithog y mae yn rhan ohoni. Yng nghyd-destun y Gymraeg, rhoddir pwyslais mawr ar sicrhau dilyniant ieithyddol i bob disgybl o'r Cynradd i'r Uwchradd.
- Ymgorfforí cyfleoedd i gymhwyso sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a galluogi pob unigolyn i ennill, datblygu a chymhwyso y medrau llythrennedd, rhif, digidol a chyfannol sydd eu hangen arnynt er mwyn gwireddu eu potensial.
- Cynorthwyo pob disgybl i ddeall y byd y mae'n byw ynddo a'r modd y mae unigolion, grwpiau a chenhedloedd yn ddibynnol ar ei gilydd. Elfen ganolog o hyn yw sicrhau ymdeimlad ein dysgwyr o'u hunaniaeth fel Cymry a balchder yn eu hetifeddiaeth a'u bro.
- Meithrin cymdeithas waraidd sy'n rhoi pwys ar werthoedd moesol, dynol ac ysbrydol gan ddatblygu hunan-barch a hefyd parch a goddefgarwch tuag at eraill a gofal drostynt.
- Galluogi pob unigolyn i ddatblygu sgiliau deallusol, creadigol, cymdeithasol, ymarferol a chorfforol. Dysgu am ddynoliaeth a chyflawniadau ym maes y celfyddydau, y gwyddorau, crefydd a'r ymchwil am gymdeithas.
- Galluogi pob unigolyn i feithrin gwybodaeth, agweddau a sgiliau sy'n berthnasol i fywyd oedolyn, i waith a diweithdra mewn byd sy'n prysur newid, i addysg barhaol ac i'r defnydd creadigol o hamdden.
- Galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd priodol ar hyd y continwwm dysgu gan ymgorffori asesu yn fedrus er mwyn i ddysgwyr wneud cynnydd.
- Gwrando ar lais y dysgwr ac ymateb i anghenion, profiadau a mewnbwn dysgwyr er mwyn gwerthuso'n barhaus a sicrhau bod ein cwricwlwm yn briodol ar gyfer ein dysgwyr, o ran eu hoedran, eu galluoedd a'u doniau. Golyga hyn y byddwn yn cynllunio'n adlewyrchol ac yn hyblyg er mwyn sicrhau cwricwlwm sy'n bodloni anghenion mewn sefydliad addysgol.
- Mae'r pedwar diben yn ddyhead ac yn nod terfynol ar gyfer ein cwricwlwm.

Ein nod yw bod ein cwricwlwm yn Ysgol y Strade yn sicrhau bod ein dysgwyr yn:

i. ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
ii. gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith - ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
iii. unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**Gweithredu'r Cwriclwm**

**Trwy arweinyddiaeth gadarn bydd y Tîm Arwain yn sicrhau:**

- yr holl elfennau statudol sy'n ymwneud â'r cwricwlwm
- sicrhau bod amser digonol yn cael ei glustnodi ar gyfer addysgu'r cwricwlwm
- hyblygrwydd i ddarparu cwrciwlwm addas ac uchelgeisiol
- sicrhau bod y Corff Llywodraethol yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau yn ymwneud â'r cwricwlwm.

**Bydd Penaethiaid Adran yn gyfrifol am:**

- gynllunio tymor hir a thymor byr ar gyfer y rhaglenni dysgu perthnasol
- sicrhau bod cynlluniau dysgu yn arwain at gynnydd o safbwynt safonau
- sicrhau bod cysondeb o safbwynt darpariaeth o'r cwricwlwm o fewn y meysydd ac adrannau
- sicrhau bod cyrsiau arholiad addas yn cael eu darparu ar gyfer y disgyblion
- sicrhau bod addasrwydd a chysondeb o safbwynt asesu
- sicrhau bod y Tîm Arwain yn ymwybodol o unrhyw newid i'r ddarpariaeth cwricwlaidd
- bod data cyrhaeddiad pob disgybl yn cael ei adolygu yn unol â gofynion y polisi asesu
- bod arfer dda yn ymwneud â'r cwricwlwm yn cael ei rannu ar draws y sefydliad, rhwng meysydd/adrannau a gyda sefydliadau eraill

**Bydd Athrawon Pwnc yn gyfrifol am:**

- sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno yn unol â gofynion y polisi hwn
- sicrhau bod eu gwybodaeth bynciol yn gyfredol
- dadansoddi data yn seiliedig ar berfformiad disgyblion ac am ddefnyddio'r data i gynllunio'n briodol
- rhannu arferion da yn ymwneud â darpariaeth cwricwlaidd
- cydweithio gydag athrawon eraill i ddatblygu eu sgiliau a manteisio ar unrhyw gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol a fydd yn arwain at welliant o safbwynt darpariaeth

**Bydd disgyblion yn:**

- sicrhau bod llais ganddynt wrth i'r ysgol gynllunio'r cwricwlwm
- derbyn cefnogaeth ychwanegol os ydynt yn cael trafferthion gyda'u dysgu
- derbyn arweiniad arbenigol a chytbwys o safbwynt gwneud dewisiadau addas ar gyfer cyrsiau TGAU a dewisiadau ôl-16

**Bydd rhieni/gofalwyr :**

- yn derbyn gohebiaeth a gwybodaeth gyfredol ynglŷn â chynnydd eu plentyn.
- yn derbyn gwybodaeth gyfredol ac adeiladol ynglŷn â'r cwricwlwm a'r opsiynau ar gyfer TGAU / Cyrsiau ôl-16 ac hefyd o sabwynt unrhyw ddatblygiadau cwricwlaidd yn yr ysgol.

**Llwybrau Dysgu Addas a Chynhwysiant o fewn y Cwicwlwm**

Byddwn yn gwerthuso ein darpariaeth gwricwlaidd yn gyson, yn adlewyrchol ac yn onest er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r llwybrau mwyaf addas i'n dysgwyr yn ein cwricwlwm ar bob cam yn eu gyrfa ysgol. Byddwn yn addasu ein llwybrau yn hyblyg ac yn adeiladol yn sgil ein prosesau hunanwerthuso trylwyr i sicrhau fod y llwybrau sydd yn eu lle ar gyfer ein dysgwyr yn addas ar gyfer eu hanghenion unigol. Byddwn yn addasu strwythur a threfn ein cwrciwlwm yn ôl y prosesau hunanwerthuso hyn i sicrhau ein bod yn effro i ofynion pob grŵp blwyddyn er mwyn sicrhau yr addysg orau sydd wedi ei wahaniaethu'n bwrpasol i herio a chynnal pob dysgwr. Bydd hyn yn gallu arwain at addasiadau o flwyddyn i flwyddyn yn y llwybrau dysgu a'r trefniant grwpiau dysgu o fewn ein cwricwlwm. Byddwn yn ystyried yn llawn lais ein holl randdeiliaid wrth ystyried y llwybrau cwrciwlwm mwyaf addas ar gyfer ein holl ddysgwyr i sicrhau fod pob un o ddysgwyr Y Strade yn cyrraedd eu llawn botensial.

**Monitro a Gwerthuso**

Bydd y Corff Llywodraethol yn derbyn adroddiad blynyddol a thymhorol gan y Pennaeth yn seiliedig ar drefniadau a datblygiadau cwricwlaidd. Bydd y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am adolygu'r polisi cwricwlwm ac yn asesu ei effeithlonrwydd. Bydd amcanion y polisi yn cael eu hyrwyddo ar draws yr ysgol. Bydd Corff Llywodraethol Ysgol y Strade yn sicrhau bod yr holl ofynion statudol cwricwlaidd yn cael eu darparu.

| | |
|---|---|
| Diweddarwyd: | Tachwedd 2023 |
| Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol: | |
| Llofnod y Cadeirydd: | |